

Wales TUC Cymru

# Cyrsiau ar gyfer holl gynrychiolwyr undebau

## Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf 2023

# Covid-19 a'n cyrsiau

Yn ystod pandemig Covid-19, roedd angen i ni ohirio ein holl gyrsiau yn yr ystafell ddosbarth. Felly, mae TUC Cymru, ynghyd â'n darparwyr cyrsiau Addysg Oedolion Cymru a Choleg Gwent wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu cyrsiau ar-lein dan arweiniad tiwtoriaid ar gyfer ein cynrychiolwyr.


## Beth fydd yn digwydd nawr bod cyfyngiadau Covid-19 yn cael eu llacio?

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig a dychwelyd at y 'normal newydd', ein nod fydd symud i ddull mwy cyfunol o ddarparu cyrsiau. Rydym wedi gweithio'n galed ar ein darpariaeth ar-lein ac yn parhau i wneud hynny gyda'r gobaith y bydd mwy o gyrsiau ar gael ar gyfer dysgu ar-lein. Ond yn bwysicaf oll, rydym hefyd yn paratoi i ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth.

## Sut ydw i'n gwybod a fydd cwrs yn cael ei gynnal yn y dosbarth neu ar-lein?

Ar hyn o bryd, mae ein cyrsiau'n cael eu darparu ar-lein ond byddwn yn symud yn ôl i'r ystafell ddosbarth yn raddol o fis Medi ymlaen. Os ydych chi'n gweld cwrs sydd o ddiddordeb i chi ac yr hoffech chi fynd iddo'n bersonol neu os ydych chi'n dymuno bod yn bresennol ond nad ydych chi'n gallu dod i'r dosbarth, cysylltwch â darparwyr ein cyrsiau ac fe wnawn ein gorau i helpu. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer Addysg Oedolion Cymru a Choleg Gwent ar y dudalen nesaf

Ein nod yw dychwelyd i'r ystafell ddosbarth yn ddiogel cyn gynted â phosibl. Yn y cyfamser, rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo bod y ddarpariaeth ar-lein yn ddefnyddiol. A chofiwch gofrestru ar gyfer ein rhestr bostio i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ac ar gyfer cyhoeddiadau yn y dyfodol.



# Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau am gyrsiau a chyflwyno ffurflenni cais

### Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales

Cydlynydd y Cyrsiau: Betty Mason
Ffôn: 01495 369869

E-bost: tuccourseinfo@adultlearning.wales

Anfonwch geisiadau at:
Mair Owen
Astudiaethau Undebau Llafur
Addysg Oedolion Cymru
Bryn Menai
Ffordd Caergybi
Bangor
LL57 2JA

### Coleg Gwent

Cydlynydd y Cyrsiau: John James
Ffôn: 01633 466030 or 07527 450276
E-bost: John.James@coleggwent.ac.uk

Anfonwch geisiadau at:
John James
Canolfan Astudiaethau Undebau Llafur
Coleg Gwent
Campws Dinas Casnewydd
Nash Road
Casnewydd
NP19 4TS

### Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau eraill am ein cyrsiau neu os nad yw'r cwrs sydd ei angen arnoch wedi'i restru, cysylltwch â Thîm Addysg TUC Cymru:

Ffôn: 029 2034 7010
E-bost: wtuc@tuc.org.uk

Gwasanaeth Addysg TUC Cymru
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9SD

**Anfonwch geisiadau at:** John James,
Canolfan Astudiaethau Undebau Llafur, Coleg Gwent

**Ffôn:** 07527 450276
**E-bost:** John.James@coleggwent.ac.uk
**Lleoliad:** ar-lein **Oriau:** 9.15am tan 16.45pm

# Coleg Gwent

| Tymor y Gwanwyn 2023 | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | Patrwm |
|---|---|---|---|
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 16 Ion | 27 Maw | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 2 | 17 Ion | 28 Maw | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 2 | 18 Ion | 29 Maw | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – rhan 1 | 26 Ion | 17 Chwef | 4 diwrnod |
| Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – rhan 2 | 3 Maw | 10 Maw | 2 ddiwrnod |
| Gwneud ein gweithleoedd yn fwy gwyrdd - 'sgiliau gwyrdd' ar gyfer undebwyr llafur | 30 Ion | 13 Chwef | 3 diwrnod |
| Trafod er mwyn sicrhau Trawsnewid Cyfiawn | 6 Maw | 20 Maw | 3 diwrnod |

| Tymor yr Haf 2023 | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | Patrwm |
|---|---|---|---|
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 17 Ebr | 3 Gorff | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 2 | 18 Ebr | 27 Meh | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 1 | 19 Ebr | 28 Meh | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – rhan 1 | 20 Ebr | 11 Mai | 4 diwrnod |
| Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – rhan 2 | 8 Meh | 15 Meh | 2 ddiwrnod |
| Gwneud ein gweithleoedd yn fwy gwyrdd - 'sgiliau gwyrdd' ar gyfer undebwyr llafur | 24 Ebr | 15 Mai | 3 diwrnod |
| Trafod er mwyn sicrhau Trawsnewid Cyfiawn | 5 Meh | 19 Meh | 3 diwrnod |

**Applications to:** Mair Owen, Addysg Oedolion Cymru

**Ffôn:** 07943 591083
**E-bost:** mair.owen@adultlearning.wales
**Lleoliad:** ar-lein **Oriau:** 9.15am tan 16.45pm

# Addysg Oedolion Cymru

| Tymor y Gwanwyn 2023 | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | Patrwm |
|---|---|---|---|
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 1 | 16 Ion | 27 Maw | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 2 | 17 Ion | 28 Maw | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 19 Ion | 30 Maw | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 2 | 20 Ion | 31 Maw | 10 diwrnod |
| Rheoli straen i gynrychiolwyr | 8 Chwef | 8 Chwef | 1 diwrnod |
| Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – rhan 1 | 11 Ion | 1 Chwef | 4 diwrnod |

| Tymor yr Haf 2023 | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | Patrwm |
|---|---|---|---|
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 1 | 17 Ebr | 3 Gorff | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch – rhan 2 | 18 Ebr | 4 Gorff | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 1 | 20 Ebr | 6 Gorff | 10 diwrnod |
| Cynrychiolwyr undebau – rhan 2 | 21 Ebr | 7 Gorff | 10 diwrnod |
| Cwynion a disgyblu | 19 Ebr | 26 Ebr | 3 diwrnod |
| Cynrychiolwyr Dysgu Undebau – rhan 2 | 3 Mai | 24 Mai | 4 diwrnod |

# Newyddion cyffrous

Mae Diploma'r TUC mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn mynd yn ddigidol!

Mae TUC Cymru ynghyd â'n darparwyr dysgu wedi bod yn gweithio'n galed i gael ein darpariaeth ystafell ddosbarth ar-lein ar gyfer ein cynrychiolwyr. Rydym yn falch o gyhoeddi bod ein Diploma mewn Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch bellach yn barod ar gyfer dysgu ar-lein.

Bydd y Diploma hwn yn gwneud y canlynol:

- eich helpu i ddatblygu eich dealltwriaeth o egwyddorion ac ymarfer iechyd a diogelwch
- rhoi cyfle i chi archwilio datblygiad cyfraith iechyd a diogelwch
- eich dysgu sut mae defnyddio iechyd a diogelwch i helpu i wella eich sefydliad undeb llafur a mynd i'r afael â rhai o'r problemau iechyd, diogelwch, lles ac amgylcheddol yn y gweithle a thu hwnt.
- dysgu sgiliau ymchwilio ac astudio i chi a fydd yn rhoi'r adnoddau i chi symud ymlaen ac ennill cymwysterau proffesiynol a dysgu ar lefel uwch.

Bydd angen i chi fod wedi cwblhau Iechyd a Diogelwch rhan 1 a rhan 2, neu'r hyn sydd gyfwerth â hynny yn eich undeb i wneud y cwrs hwn. Bydd y cwrs yn **dechrau** ar **13 Medi**. I wneud cais, cysylltwch â john.james@coleggwent.ac.uk

**Diploma'r TUC mewn Cyfraith Cyflogaeth.** Ar hyn o bryd rydym wrthi'n diweddaru ac addasu'r Diploma mewn Cyfraith Cyflogaeth er mwyn iddo fod yn barod ar gyfer dysgu ar-lein.

Cadwch lygad am ein cyhoeddiadau ar ein gwefan neu yn ein cylchlythyr ynghylch pryd y cynhelir y cwrs hwn. Ydych chi ar ein rhestr tanysgrifio? Cofrestrwch yma rhag i chi golli cyfle.





# Cyrsiau Byr

Mae Addysg TUC Cymru yn cynnig cyfres o gyrsiau undydd neu ddeuddydd byr, wedi'u hachredu, i helpu cynrychiolwyr i gadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfoes. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Os nad ydych chi'n gallu gweld beth rydych chi'n chwilio amdano, cysylltwch â ni.

Enghreifftiau o gyrsiau undydd neu ddeuddydd byr y gellir eu cynnal ar gyfer undebau/grwpiau cynrychiolwyr ar gais:

## Sgiliau Cynrychiolwyr Undebau

- Cwynion a Disgyblu
- Sgiliau Trafod
- Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)
- Y Menopos yn y Gweithle
- Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth yn y Gweithle
- Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle
- Trais Domestig
- Mynd i'r Afael â Bwlio yn y Gweithle
- Delio â Dileu Swyddi

## Hyrwyddo Dysgu

- Ffrâm Ddringo i Gynrychiolwyr Dysgu Undebau
- Ymwybyddiaeth o Ddyslecsia
- Cynrychiolwyr Dysgu Cymunedol
- Bod yn Drefnus er mwyn Hyrwyddo Dysgu
- Dysgu yn y Gweithle a Chynrychiolwyr Dysgu Undebau
- Cydraddoldeb a Dysgu

## Iechyd a Diogelwch

- Cynrychiolwyr Gwyrdd (Undebau Llafur a'r Amgylchedd)
- Cyflwyniad i Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
- Asesu Risg
- Codi a Chario
- Anhwylderau Cyhyrysgerbydol
- Mynd i'r Afael â Straen yn y Gweithle
- Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- Canser yn y Gweithle
- Ymchwilio i Ddamweiniau
- Rheoli Straen i Gynrychiolwyr
- Rhywedd ac Iechyd a Diogelwch
- Y Menopos yn y Gweithle

## Equality

- Mynd i'r afael â Hiliaeth
- Hyrwyddwyr Anabledd yn y Gwaith
- Gwrthsefyll y Dde Eithafol
- Dod Allan yn y Gwaith
- Y Menopos yn y Gweithle


# Oes gennych chi bopeth sydd ei angen arnoch?

Ar ein cyrsiau, rydym yn gwneud ein gorau i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn a manteisio i'r eithaf ar y profiad dysgu.

Os oes gennych unrhyw ofynion o ran mynediad neu os oes angen addasiadau rhesymol arnoch, rhowch wybod i'ch Canolfan Astudiaethau Undeb Llafur leol cyn gynted ag y bo modd. (Mae'r manylion cyswllt ar dudalen 20 a 21)

## Sut mae gwneud cais

Dewiswch gwrs o'r rhestr (gweler tudalennau 20 a 21).



- → Cysylltwch â'ch Canolfan Astudiaethau Undeb Llafur leol, sy'n rhedeg eich cwrs.
- → Gofynnwch i'ch cyflogwr am ryddhad o'r gwaith gyda thâl er mwyn mynd i'r cwrs. Cofiwch ddilyn y gweithdrefnau y mae eich undeb a'ch flogwr wedi cytuno arnynt rhyngddynt.
- → Bydd eich Canolfan Astudiaethau Undeb Llafur leol sy'n rhedeg eich cwrs yn cysylltu â chi i drafod ymhellach.
- → Nid oes ffioedd cwrs ar gyfer rhaglen Addysg TUC Cymru. Bydd angen i chi siarad â'ch cyflogwr neu eich undeb am gostau teithio a chostau cysylltiedig eraill.



**Dyluniwyd gan:** Gavin Pearce (TUC Cymru)

**Lluniau:** Mae pob llun a darlun at ddibenion enghreifftiol yn unig. Mae lluniau sydd heb gael eu priodoli i rywun yn lluniau stoc sy'n dangos modelau, ac maent yn dod o Gyngres yr Undebau Llafur, iStock, Shutterstock a Storyblocks.

Wales TUC Cymru

© 2021 TUC Cymru

Gallwn ddarparu pob cyhoeddiad TUC mewn fformat hygyrch cytunedig ar gyfer darllenwyr dyslecsig neu sydd â nam ar eu golwg ar gais, heb gost ychwanegol.

e: wtuc@tuc.org.uk  t: 029 2034 7010

Cyhoeddwyd gan:
Wales TUC Cymru,
1 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd CF11 9SD
www.tuc.org.uk/wales